# SL(5)722 – Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio COVID-19 Brechlyn Rhydychen/AstraZeneca) 2020

## Cefndir a Diben

Rhaid i fyrddau iechyd lleol yng Nghymru baratoi, gweithredu a diwygio, fel y bo'n briodol, Gynllun Imiwneiddio COVID-19 Brechlyn Rhydychen/AstraZeneca Gofal Sylfaenol.

Diben y Cynllun yn y bôn yw galluogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i roi'r brechlyn fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Fel rhan o'i Gynllun, caiff pob bwrdd iechyd lleol ymrwymo i drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol â Manyleb Cynllun Imiwneiddio COVID-19 Brechlyn Rhydychen/AstraZeneca Gofal Sylfaenol gyda—

(a) deintydd;

(b) ymarferydd meddygol cyffredinol—

> (i) mewn perthynas â chleifion cofrestredig yr ymarferydd meddygol cyffredinol hwnnw,
>
> (ii) un neu ragor o bractisau sy'n arweinwyr ar glystyrau, mewn perthynas â chleifion cofrestredig y practis sy'n arwain clwstwr a chleifion cofrestredig yr ymarferwyr meddygol cyffredinol hynny, os oes rhai, sy'n rhan o'r clwstwr nad ydynt wedi cytuno i gyflwyno'r Cynllun i'w cleifion cofrestredig o fewn y cyfnod sy'n ofynnol gan y bwrdd iechyd lleol, a hynny'n unol ag is-baragraff (i),
>
> (iii) ymarferydd meddygol cyffredinol sydd wedi cytuno i gyflawni'r Cynllun yn unol ag is-baragraff (i) mewn perthynas â chleifion cofrestredig ymarferydd meddygol cyffredinol arall neu grŵp o ymarferwyr meddygol cyffredinol, yn ddarostyngedig i gytundeb yr ymarferydd meddygol cyffredinol arall neu grŵp o ymarferwyr meddygol cyffredinol;

(c) optegydd; neu

(d) fferyllydd.

## Gweithdrefn

Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd – nid oes rhaid gosod y Cyfarwyddydau gerbron y Senedd.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Cyfarwyddydau hyn.

Nodwn y pwerau eang sydd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, gan gynnwys y pŵer i roi cyfarwyddydau i fyrddau iechyd lleol yng Nghymru sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd.

Yn benodol, nodwn fod y pŵer i roi cyfarwyddydau yn ddigon eang i ganiatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo byrddau iechyd lleol i baratoi cynllun brechu cenedlaethol i ymdrin â phandemig y coronafeirws, heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol nac is-ddeddfwriaeth y mae'n rhaid ei gosod gerbron y Senedd.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor y cyfarwyddydau yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.